Ask for/*Gofynnwch am* **Sarah Morgan**

Our Ref/*Ein Cyf*

Your Ref/*Eich Cyf*

Tel/*Ffôn*

Direct Dial/*Rhif Union*

DX

E-Mail/*E-Bost* Sarah.Morgan@newport.gov.uk

Education Service

Gwasanaeth Addysg

Civic Centre/Canolfan Ddinesig
Newport/Casnewydd
South Wales/De Cymru
NP20 4UR

17 Tachwedd 2021

Annwyl Riant/Warcheidwad,

Yn anffodus, mae wedi dod i'n sylw bod cyfrifon cyfryngau cymdeithasol wedi'u sefydlu ar lwyfannau fel TikTok, sydd wedi'u cynllunio i edrych fel cyfrifon ysgol swyddogol, ac mae disgyblion wedi bod yn uwchlwytho fideos byr iddyn nhw.

Mae digwyddiadau diweddar wedi golygu bod postiadau a fideos amhriodol wedi cael eu huwchlwytho i gyfrifon o'r fath sy'n sarhaus, yn wahaniaethol neu'n ddifenwol. Mae postiadau o'r fath yn achosi trallod i eraill a gallan nhw fod yn anghyfreithlon.

Rydyn ni'n gofyn yn garedig i chi siarad â'ch plant chi a'u hatgoffa o'r peryglon sy'n gysylltiedig â chamddefnyddio cyfryngau cymdeithasol yn y modd hwn, ac y gallai gweithgaredd o'r math sydd wedi'i ddisgrifio uchod arwain at ganlyniadau difrifol.

Os canfyddir bod y sawl sy'n cyflawni cynnwys tramgwyddus yn ddisgybl mewn ysgol o fewn yr awdurdod lleol, ymdrinnir ag ef yn unol â pholisi disgyblu'r ysgol honno a gellid rhoi gwybod i'r heddlu amdano i'w weithredu ymhellach os yw'n briodol.

Efallai yr hoffech chi wirio dyfeisiau/cyfrifon cyfryngau cymdeithasol eich plant hefyd i sicrhau bod unrhyw fideos, lluniau neu gynnwys arall amhriodol yn cael eu dileu.

Bydd ysgolion yn parhau i fonitro sianeli cyfryngau cymdeithasol, gan gynnwys TikTok, yn y dyfodol a byddan nhw'n gweithredu fel y bo'n briodol.
Dylai'r disgyblion gael eu hatgoffa hefyd nad ydyn nhw'n cael ffilmio ar dir yr ysgol heb ganiatâd yr ysgol o flaen llaw.

Diolch am eich cydweithrediad yn y mater hwn, a gadewch i ni weithio gyda'n gilydd i gadw ein plant a'n pobl ifanc ni yn ddiogel ar-lein.

Yn ddiffuant,



Sarah Morgan, Prif Swyddog Addysg.